# Tyfu ar gyfer Twf

**E- fwletin Garddwriaeth gan Cyswllt Ffermio – Gwanwyn 2025.**

Croeso i'n e-fwletin pwrpasol ar gyfer Tyfwyr a Busnesau Garddwriaeth.

## Beth sy'n digwydd ym maes garddwriaeth ?

**Adroddiad Arbennig: Gŵyl Wanwyn 2025: Hyrwyddo Garddwriaeth yng Nghymru yn y Farchnad i Dyfwyr**



Dechreuodd tymor sioeau Cymru gyda thywydd braf y mis diwethaf gyda Gŵyl Wanwyn Brenhinol Cymru. Croesawodd Maes Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd, Llanfair-ym-muallt filoedd o ymwelwyr i ddathlu bywyd gwledig gyda gweithgareddau tyddynnod wrth wraidd y cyfan. Roedd y digwyddiad penwythnos o hyd yn arddangosfa o amrywiaeth cefn gwlad Cymru ac yn ddiwrnod gwych i deuluoedd ifanc, y rhai sy'n frwd dros arddio ac unrhyw un sydd â diddordeb yn yr awyr agored.
Bu i Cyswllt Ffermio lenwi Canolfan yr Aelodau i arddangos ein tyfwyr a Garddwriaeth Cymru gyda Marchnad y Tyfwyr. Ymunodd naw busnes â ni wrth fynedfa'r ŵyl, lle'r oedd pobl yn gallu pori ystod o wahanol stondinau:



- Garddwriaeth Ash & Elm (Welsh Flower Barrow) – gardd farchnad amrywiol agroecolegol 5 erw. Wedi'i lleoli ym mynyddoedd hardd Cambria yng nghwm Hafren, dim ond ychydig filltiroedd o dref farchnad fach Llanidloes.
- Bloomorium – Siop flodau annibynnol ar y stryd fawr yn Llanfair-ym-Muallt, gyda blodau a dyfir yn lleol ar gael o fis Ebrill i fis Medi.
- Living Simply Lavender - Busnes bach llewyrchus yw Living Simply Lavender, wedi'i leoli y tu allan i Lanelli. Yn ystod misoedd yr haf, caiff eu lafant ei gynaeafu â llaw ac yna ei ddistyllu.
- NPTC - un o'r darparwyr addysg bellach mwyaf yng Nghymru gyda champysau'n ymestyn o'r de i ogledd Cymru. Mae gan yr adran arddwriaeth gyfleusterau mewn tri champws, Castell-nedd, Aberhonddu a'r Drenewydd.
- P&J Plants - busnes teuluol sy'n arbenigo mewn planhigion cigysol.
- Microacres - planhigion micro gwyrdd a dyfir yn gynaliadwy, blodau bwytadwy, a madarch arbenigol. Wedi'u cynaeafu â llaw o fferm fertigol drefol, gan ddefnyddio dulliau tyfu cynaliadwy.
- Farmers Welsh Lavender Ltd - Mae FARMERS' Welsh Lavender yn wneuthurwyr hufenau a balmau gofal corff bum milltir o faes y sioe.
- The Fungi Folk - Mae The Fungi Folks yn fferm fadarch ardystiedig organig ym mryniau De Cymru, yn tyfu amrywiaeth o fadarch arbenigol a meddyginiaethol ac yn cynhyrchu trwythau a rhin.
- Root-Up - Mae Root Up yn datblygu atebion arloesol i'r heriau bob dydd y mae tyfwyr hydroponeg ac unigolion sy'n frwd am blanhigion yn eu hwynebu. Mae eu dull sy'n cael ei lywio gan beirianneg yn cyfuno ymarferoldeb ymarferol â dyluniad cynaliadwy i greu cynhyrchion sy'n gwella effeithlonrwydd tyfu wrth wella iechyd a chynnyrch planhigion.



**Mynediad i Allforio: Estyniad o Hawddfraint ar gyfer Pasbortau Planhigion y DU**

Mae DEFRA wedi cyhoeddi estyniad o 19 mis i'r hawddfraint bresennol ar basbortau planhigion, gan ganiatáu i gyflenwyr yr UE barhau i atodi pasbortau planhigion y DU i blanhigion sy'n barod i'w manwerthu cyn eu cludo. Mae'r estyniad hwn am 19 mis y tu hwnt i'r dyddiad cau gwreiddiol o 30 Mehefin 2025, i 31 Ionawr 2027, yn darparu sicrwydd sydd ei angen yn fawr ar y diwydiant garddwriaeth.

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

Mae'r HTA wedi bod yn eiriolwr llafar dros gynnal y system bresennol wrth ddatblygu ateb pasbort planhigion electronig modern. Mae eu gwaith i gefnogi masnachwyr yn cael ei amlygu yn yr erthygl hon.

### Diweddariad ar Brosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion

Yn ddiweddar, mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi cynhyrchu cyfres o adroddiadau ar gyflawniadau Prosiect **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**. Gan weithio gyda phartneriaid sy'n cynnwys Castell Howell a Garddwriaeth Cyswllt Ffermio, mae prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn helpu i gael mwy o lysiau organig a gynhyrchir yn lleol i ysgolion ledled Cymru. Yn 2024, gweinodd Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion **200,000 dogn** o lysiau ffres, organig mewn mwy na 200 o ysgolion ledled Cymru. I ddarllen eu hadroddiadau, cliciwch y ddolen yma.

## Uchafbwynt y tyfwr

### Tyfu eich Busnes Garddwriaeth: Pennod Podlediad Newydd yn Amlygu Twf Cwmni

Mae pennod newydd o bodlediad gan Cyswllt Ffermio wedi tynnu sylw at dwf planhigfa yng Nghymru i fod yn allforiwr planhigion mawr i'r DU ac Ewrop. Canolbwyntiodd pennod 115 ar daith **Planhigfa Seiont** yng Nghaernarfon, o'u sefydlu ym 1978 i'w cynhyrchiad blynyddol trawiadol o dros filiwn o blygiau a leinin. Mae Seiont wedi derbyn cymorth busnes gan yr ymgynghorydd Neville Stein, sydd wedi'u cynghori ar sut i wneud eu busnes yn fwy effeithlon. Dywed Neville, ymgynghorydd busnes garddwriaeth arbenigol gyda dros 40 mlynedd o brofiad, 'Mae wedi bod yn bleser rhoi cymorth i Neil Alcock trwy raglen Cyswllt Ffermio. Mae Neil eisoes wedi gweld ymholiadau o Iwerddon yn cynyddu ac mae hefyd wedi cael archeb gan gwsmer newydd. Mae'n galonogol gweld canlyniadau ein hymdrechion ar y cyd ac rwy'n hyderus y bydd Neil yn tyfu marchnad sylweddol yn Iwerddon diolch i'r cymorth gan Cyswllt Ffermio'.




*Hoffech chi gael cymorth gyda pherfformiad busnes eich menter garddwriaeth? Mae ein Cymorth Busnes Garddwriaeth yn darparu hyd at 12 awr o sesiynau cymorth wedi'u hariannu'n llawn. Gall pob busnes garddwriaeth sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio gael mynediad at y gwasanaeth hwn, ac ar gyfer ein trydedd flwyddyn, mae'r holl oriau wedi'u hailosod, gan ganiatáu i unrhyw fusnes sydd wedi derbyn cyngor yn y ddwy flynedd gyntaf gael mynediad at yr oriau llawn unwaith eto. Cysylltwch â'r tîm ar horticulture@lantra.co.uk am gymorth.*

## Diweddaru eich gwybodaeth

### Lansio Rhwydwaith Newydd ar gyfer Garddwriaeth Cymru

Mae rhwydwaith newydd rhwng cymheiriaid ar gyfer tyfwyr Cymru yn lansio trwy dîm Garddwriaeth Cyswllt Ffermio: Rhwydwaith **Cynhyrchu Perlysiau yng Nghymru** : Mynediad at gyngor arbenigol, hyfforddiant ymarferol, a mentrau marchnata wedi'u teilwra i amodau Cymru. P'un a ydych chi'n dyfwr sefydledig neu'n edrych am gyfleoedd newydd, mae'r rhwydwaith hwn yn eich helpu i feithrin gwydnwch, gwella proffidioldeb, a chysylltu ag eraill sy'n llywio dyfodol cynhyrchu perlysiau yng Nghymru.

*Os hoffech fynegi diddordeb mewn ymuno â'r rhwydwaith hwn, anfonwch e-bost at horticulture@lantra.co.uk .*

### Modiwl e-ddysgu Newydd Ar Gael!

Mae modiwl e-ddysgu newydd wedi dod ar gael i dyfwyr, gyda ffocws ar berllannau: **Sefydlu a Rheoli Perllannau** – Mae'r term perllan yn cyfeirio at blanhigfa o goed a gynlluniwyd i gynhyrchu cnydau o ffrwythau a chnau. Afalau, eirin a gellyg yw'r ffrwythau a dyfir yn gyffredin; mae ffrwythau anarferol yn cynnwys meryswydden, morwydden, a chwins. Mae gwerthu a marchnata yn ystyriaethau pwysig gan fod archfarchnadoedd a siopau gwyrdd yn cael eu cyflenwi'n dda gan berllannau ar raddfa fawr a mewnforion am brisiau isel iawn. Gall marchnadoedd lleol a gwerthiannau ar-lein fod yn opsiynau da. Mae gan berllannau hefyd botensial ar gyfer twristiaeth fferm, cynlluniau cymunedol, addysg a phrosiectau eraill nad ydynt yn seiliedig ar gynhyrchu.



*Mae'r modiwl hwn yn rhan o'n pecyn e-ddysgu ar-lein sef modiwlau byr ar-lein ar wahanol bynciau a fydd yn golygu eich bod yn ennill mwy o wybodaeth ac yn gwella arferion gwaith. Mae mynediad i'r modiwlau hyn drwy'r porth hyfforddiant ar-lein, BOSS. Os oes angen unrhyw help arnoch i ddod o hyd i hyn, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, mae croeso i chi gysylltu â ni.*

## Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylid defnyddio cemegau amddiffyn cnydau gan ddilyn argymhellion y label bob tro, a dylid eu darllen cyn chwistrellu. Mae'r risg o ddefnyddio'r plaladdwr yn nwylo'r defnyddiwr, ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Gall y

cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar y label ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr newid a gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaethau cyn defnyddio plaladdwyr neu fuddolion. Os oes amheuaeth, dylai tyfwr geisio cyngor gan arbenigwr cymwys. Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad – mae cyngor dros e-bost/ffôn ar gael hefyd. Nid ydym yn gwarantu, yn cymeradwyo, nac yn cymryd cyfrifoldeb am gywirdeb na dibynadwyedd unrhyw wybodaeth a gynigir gan wefannau trydydd parti sy'n gysylltiedig â'r ddogfen neu unrhyw wefan neu nodwedd sydd wedi'i chysylltu ag unrhyw faner neu hysbyseb arall.